**CYNGOR SIR DDINBYCH**

**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL:**
**HYSBYSEBION**

**~~Tachwedd 2014~~ Mawrth 2015**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Nodyn hwn yn un o gyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n ymhelaethu ar bolisïau'r cynllun datblygu a materion eraill mewn ffordd glir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y Nodiadau yw cynnig canllawiau bras a fydd o gymorth i aelodau'r cyhoedd a swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac o gymorth i swyddogion wrth drin ac aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. STATWS A CHYFNODAU PARATOI

2.1 Nid yw CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ddilynol yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), gellir trin y CCA fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd ACLl, Arolygwyr Cynllunio a Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau. ~~Cymeradwywyd~~ Mabwysiadwyd y ddogfen CCA hon yn ffurfiol gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ar 18 Mawrth 2015.

2.2 Mae'r nodiadau hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r canllawiau a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Mawrth 2014); Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (Rhagfyr 2005); a Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru.

## 3. CEFNDIR

3.1 Rôl hysbyseb (neu hysbysebion) yw cyfeirio a / neu roi gwybod i'r cyhoedd (fel cwsmeriaid posibl) am adeilad, cynnyrch neu wasanaeth. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar leoliad a dyluniad hysbysebion, gan gynnig cyngor ac arweiniad ar leoliad a'r math o hysbyseb. Mae'r rheoliadau ynglŷn â rheoli hysbysebion yn gymhleth, a dylid gofyn am gyngor gan Wasanaethau Cynllunio'r Cyngor cyn codi neu osod unrhyw hysbyseb neu wrth ystyried gwneud cais am ganiatâd hysbysebu.

## 4. POLISI CYNLLUNIO a RHEOLIADAU

4.1 Mae modd cael hyd i ganllawiau cenedlaethol ym **Mholisi Cynllunio Cymru** (2014) Paragraff 3.5 a **Nodyn Cyngor Technegol 7 - Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996)** ac mae **Polisi CDLl RD1** yn amlinellu ystyriaethau rheoli datblygu cyffredinol a bydd adran (i) yn berthnasol i geisiadau caniatâd hysbysebu. Mae yna hefyd cyngor defnyddiol a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol dan y teitl **'Hysbysebion awyr agored ac arwyddion - Canllaw i hysbysebwyr'**, sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol https://www.gov.uk/government/publications/outdoor-advertisements-and-signs-a-guide-for-advertisers. Dylid nodi mai ar gyfer Lloegr yn unig y mae'r

ddogfen hon yn berthnasol a bydd rhai o'r rheolau a rheoliadau yn wahanol yng Nghymru, ond mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o gyngor a darluniau dylunio defnyddiol sydd yn ddefnyddiol wrth ystyried opsiynau ar gyfer hysbysebion.

4.2 Mae hysbysebion yn amodol ar reoli trwy'r **Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992**. Mae'r hysbysebion sydd yn amodol ar reolaeth gan Reoliadau 1992 yn perthyn i ddau brif gategori:

- Hysbysebion ble rhoddir *caniatâd tybiedig* gan y rheoliadau; a
- Hysbysebion y mae angen *caniatâd penodol* gan y Cyngor.

4.3 Mae **caniatâd tybiedig** yn cynnwys y mathau o hysbysebion a restrir yn Atodlen 3 y rheoliadau; i'w gweld yn Atodiad A; yn amodol ar unrhyw amodau a bennir a chyfyngiadau, a hefyd at yr amodau safonol a restrir yn Atodiad B. Er nad oes angen caniatâd ar gyfer hysbysebion sy'n cael budd o ganiatâd tybiedig, mae gan y Cyngor bwerau i fynnu cael gwared ar hysbysebion sy'n cael budd o ganiatâd tybiedig, ond sy'n cael eu hystyried i gael effaith andwyol.

4.4 Mae angen derbyn **caniatâd eglur** gan y Cyngor ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o hysbysebion, gan gynnwys arwyddion ffasgia; posteri a hysbysiadau; arwyddion ymlaen llaw; arwyddion cyfarwyddiadau ac ati a bydd cynnwys y nodyn cyfarwyddyd hwn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau am Ganiatâd Eglur. Caiff pob cais am ganiatâd hysbysebu eu beirniadu yn erbyn y ddau faen prawf canlynol:

**AMWYNDER** - Mae hyn yn ymwneud â'r effaith y mae'r hysbyseb yn ei chael ar ymddangosiad y dalgylch a'r adeilad y mae arno, drwy faint, lleoliad, dyluniad, deunyddiau, lliw, goleuo ac ati. Mae hefyd yn ystyried effaith gronnus yr hysbysebion ar yr ardal gyfagos. Mae angen rhoi gofal ac ystyriaeth arbennig i ddylunio a'r defnydd o ddeunyddiau mewn ardaloedd sensitif gan gynnwys AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte. Mae canllawiau penodol mewn perthynas ag Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth i'w cael mewn CCA ar wahân y dylid eu defnyddio ar y cyd â'r nodyn hwn.

**DIOGELWCH Y CYHOEDD -** Mae hyn yn ystyried holl ddefnyddwyr y briffordd; ceir, beicwyr, cerddwyr, a phobl anabl. Y prif ystyriaethau yw tynnu sylw gyrwyr a diogelwch cerddwyr.

4.5 Bydd y defnydd o **arwyddion dwyieithog** yn cael eu hannog a'u cefnogi ym mhob hysbyseb er mwyn adlewyrchu cymeriad ieithyddol a diwylliannol Sir Ddinbych. Mae busnesau yn cael eu hannog i ddefnyddio enwau a thermau Cymraeg fel enghraifft o arfer gorau wrth enwi eu hadeiladau a'u gwneud yn berthnasol yn lleol pan fo modd.

**4.6 Arwyddion heb Awdurdod**

4.7 Mae arddangos hysbyseb sy'n torri'r Rheoliadau yn drosedd. Er enghraifft, arddangos hysbyseb heb dderbyn y caniatâd angenrheidiol neu fethu

cydymffurfio â’r amodau sy’n cyd-fynd â’r caniatâd hwnnw. Mae’r Cyngor yn gallu erlyn a chanddo’r pŵer i dynnu unrhyw hysbyseb (ac unrhyw strwythur a ddefnyddir i arddangos yr hysbyseb) os yw’n credu ei fod yn torri’r Rheoliadau.

4.8 Mae Adran 132 Deddf Priffyrdd 1980 yn galluogi’r awdurdod priffordd i dynnu unrhyw hysbyseb anghyfreithlon fel lluniau neu arwyddion ar goed, arwyddion priffyrdd, adeiladau neu ar y briffordd. Mae adran Priffyrdd Sir Ddinbych wedi datblygu canllaw ychwanegol i egluro’r materion yn ymwneud ag arwyddion heb awdurdod ar y briffordd. Mae’r canllaw hwn ynghlwm wrth Atodiad C.

## 5. MATHAU O HYSBYSEBION

5.1 **Arwyddion Ffasgia** - hysbysebion a leolir fel arfer ar y brif weddlun yr adeilad, rhwng y llawr gwaelod a'r cyntaf. Dylai deunyddiau fod yn briodol i'r adeilad a'r ardal gyfagos. Dylai dyfnder a maint yr arwydd a'r llythrennau adlewyrchu nodweddion yr eiddo. Fe anogir arwyddion ffasgia sydd wedi’u paentio, eu goleuo’n allanol (os oes angen) ar draws y Sir ac yn ofynnol mewn ardaloedd sensitif.




5.2 **Arwyddion bargod/crog** – fe’u lleolir fel arfer ar yr un lefel â’r ffasgia, gan ymwthio ar ongl sgwâr, ac fe’u cefnogir fel arfer gan fraced. Gall y math hwn o hysbysebu, pan gânt eu dylunio a'u harddangos yn briodol, ffurfio ychwanegiad cadarnhaol i olygfa'r stryd, gan ychwanegu diddordeb ac amrywiaeth. Gall gormod o arwyddion o'r fath, fodd bynnag, arwain at ymddangosiad anniben ac anneniadol, ac i osgoi hyn, dim ond un arwydd o'r fath a ganiateir ar bob adeilad, ac eithrio ar adeilad ar gornel. Ni ddylai

arwyddion estyn allan fwy nag 1 metr oddi wrth y wal gynnal, a dylent fod yn uwch na 2.5 metr o lefel y ddaear er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd. Rhaid i ddefnydd y deunyddiau, lliw a goleuo (os oes angen) fod yn gydnaws â chymeriad yr adeilad a'r ardal gyfagos.







5.3 **Goleuo -** Dylai arwyddion sydd wedi'i goleuo fod o fath ac arddull sydd ddim yn achosi niwsans gweledol na pherygl. Dylai hysbysebion goleuedig:

- beidio ag achosi unrhyw ymyrraeth mewn i unrhyw eiddo preswyl
- beidio ag achosi unrhyw lacharedd, disgleirdeb na gwrthdaro gyda goleuadau stryd neu draffig
- ni ddylent fod yn debyg i oleuadau traffig neu oleuadau cerbydau'r gwasanaethau argyfwng

5.4 Yn ogystal, dylai'r goleuadau:
- fod yn ffynhonnell ysgafn heb fod yn ysbeidiol (ni ddylai fflachio ac ni ddylai fod ganddynt rannau symudol)
- os cânt eu goleuo o'r tu blaen, ni ddylai daflunio mwy na 500mm o'r hysbyseb
- taflunio ychydig iawn o olau tuag at i fyny
- bod yn ynni effeithlon

5.6 **Arwyddion cwrt blaen** – caiff arwyddion cwrt blaen eu lleoli ar dir yn yr un berchnogaeth â'r busnes masnachol sy'n cael ei hysbysebu. Bydd diogelwch cerddwyr a modurwyr yn brif ystyriaeth gan y gall arwyddion sydd wedi'u lleoli mewn man gwael, neu ormod o arwyddion felly guddio'r hyn y gall y gyrrwr ei weld. Ni anogir arwyddion cylchdroi gan y gallant dynnu sylw modurwyr.

5.7 **Byrddau-A** - mae'r rhain yn rhai dros dro neu'n symudol, a dylid eu lleoli ar dir yn yr un berchnogaeth â'r busnes sy'n cael ei hysbysebu. Os caiff arwydd ei leoli ar y palmant, dylid cofio bod hyn yn rhan o'r briffordd a fabwysiadwyd a bydd chydsyniad ar wahân yn ofynnol gan yr Awdurdod Priffyrdd (CSDd). Gall arwyddion palmant achosi problemau penodol i gerddwyr ac ni ddylai rwystro symudiad neu gyflwyno perygl posibl.

DRAFT







Ni fydd hysbysebion anarferol o fawr a nifer o fyrddau A yn cael eu cymeradwyo

5.8 **Baneri Dros Dro** – ar y cyfan caiff y rhain eu defnyddio i hysbysebu digwyddiadau sydd ar y gweill. Dylid eu lleoli fel nad ydynt yn rhwystro’r hyn y gall defnyddwyr y ffordd neu gerddwyr eu gweld. Ni ddylid eu harddangos fwy na 28 diwrnod cyn y digwyddiad ac mae'n rhaid eu symud ddim hwyrach na 14 diwrnod wedyn yn unol â Rheoliadau 1992.




5.9 **Arwyddion Cyfeiriadol Blaen** – defnyddir y rhain pan nad yw’r safle neu’r digwyddiad sy’n cael ei hysbysebu yn hawdd i’w weld, neu’n gryn bellter oddi wrth y brif briffordd. Nid yw'r arwyddion yma’n cael eu harddangos fel arfer ar yr eiddo y maent yn berthnasol. Os ydynt yn cael eu lleoli ar y Briffordd, yna rhaid cael caniatâd ar wahân gan yr Awdurdod Priffyrdd (CSDd). Y dewis yw arwyddion gwyn neu frown ar gyfer arwyddion twristiaeth yr AA ac nid oes angen caniatâd hysbysebu ar gyfer yr arwyddion hyn.




DRAFT

5.10 **Hysbysfyrddau Poster** - yn aml caiff y rhain eu defnyddio i sgrinio safleoedd adeiladu tra bod gwaith yn digwydd, a chânt eu cysylltu â waliau ochr adeiladau neu yn annibynnol gydag ymyl ffyrdd. Mae’r rhain yn fawr fel arfer ac yn cael eu rheoli'n llym drwy'r system gynllunio. Ni ddylent gael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr adeilad neu'r ardal ehangach. Ni ddylai unrhyw oleuadau dynnu sylw gyrwyr neu ychwanegu at lygredd golau i drigolion cyfagos.




**Manylion Cyswllt:**

Cyngor Sir Ddinbych
Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio
Caledfryn
Ffordd y Ffair
Dinbych
LL16 3RJ

Ffôn: 01824 706727
E-bost: cynllunio@sirddinbych.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych
Cynllunio Strategol a Thai
Caledfryn
Ffordd y Ffair
Dinbych
LL16 3RJ

Ffôn: 01824 706916
E-bost: cdll@sirddinbych.gov.uk

Cyngor Sir Ddinbych
Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Caledfryn
Ffordd y Ffair
Dinbych
LL16 3RJ

Ffôn: 01824 706800
E-bost: priffyrdd@sirddinbych.gov.uk

DRAFT

Atodiad A

*Caniatâd tybiedig*

Yn ôl rheoliad 6 o Reoliadau[1] 1992, rhoddir caniatâd tybiedig ar gyfer yr arddangosfeydd canlynol o hysbyseb sy'n dod o fewn dosbarthiadau 1 i 14 a restrir yn Atodlen 3 (yn amodol ar amodau a chyfyngiadau penodol a hefyd yr amodau safonol).

- Dosbarth 1: hysbysebion swyddogaethol awdurdodau lleol, ymgymerwyr statudol ac ymgymerwyr trafnidiaeth gyhoeddus, a hysbysebion arddangos gan ACLlau ar dir yn eu hardaloedd.
- Dosbarth 2: hysbysebion amrywiol sy'n ymwneud â'r safle lle maent yn cael eu harddangos (ee, proffesiynau, busnesau, crefftau, sefydliadau crefyddol a gwestai). Mae rhywfaint o amheuaeth yn bodoli ar hyn o bryd a ydi sefydliadau ‘gwely a brecwast’ yn cael eu cynnwys yn Nosbarth 2.
- Dosbarth 3: hysbysebion amrywiol dros dro sy'n ymwneud â gwerthu neu osod eiddo, gwerthu nwyddau neu dda byw, cynnal gwaith adeiladu neu debyg, digwyddiadau lleol, arddangosiadau o brosesau amaethyddol, ac ymweliadau gan syrcas deithiol neu ffair.
- Dosbarth 4: hysbysebion wedi’i goleuo ar eiddo busnes.
- Dosbarth 5: hysbysebion heblaw am hysbysebion wedi’i goleuo ar eiddo busnes.
- Dosbarth 6: hysbysebion ar gyrtiau blaen o adeiladau busnes.
- Dosbarth 7: hysbyseb baner sydd ynghlwm â pholyn fflag sy'n ymestyn yn fertigol o do adeilad, neu ar safle lle mae caniatâd cynllunio yn cael ei roi ar gyfer datblygiad preswyl, ac o leiaf un tŷ yn parhau i fod heb ei werthu.
- Dosbarth 8: hysbysebion ar hysbysfyrddau.
- Dosbarth 9: hysbysebion ar strwythurau priffyrdd.
- Dosbarth 10: hysbysebion ar gyfer gwarchod cymdogaeth a chynlluniau tebyg.
- Dosbarth 11: hysbysebion sy’n cyfeirio prynwyr posibl i ddatblygiad preswyl.
- Dosbarth 12: hysbysebion y tu mewn i adeiladau.
- Dosbarth 13: safleoedd a ddefnyddir ar gyfer arddangos hysbysebion heb ganiatâd eglur ar 1 Ebrill 1974 ac sydd wedi cael eu defnyddio yn barhaus ers y dyddiad hwnnw.
- Dosbarth 14: hysbysebion a arddangosir ar ôl i ganiatâd eglur ddod i ben (oni bai fod amod i'r gwrthwyneb yn cael ei osod ar y caniatâd, neu y gwnaed cais am adnewyddu caniatâd a gafodd ei wrthod).

Mae amodau a bennir a chyfyngiadau wedi'u nodi'n fanwl o dan bob un o'r dosbarthiadau uchod o hysbyseb yn amodol ar ganiatâd tybiedig.

DRAFT

[1] *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 19922* SI 1992/666, fel y diwygiwyd

Mae'r amodau safonol yn cael eu rhagnodi gan Atodlen 1 i Reoliadau 1992:

[1] Bydd unrhyw hysbysebion a arddangosir, ac unrhyw safle a ddefnyddir i arddangos hysbysebion, yn cael eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus i foddhad rhesymol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

[2] Bydd unrhyw strwythur neu hysbysfwrdd a godir neu a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion arddangos hysbysebion yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel.

[3] Lle bo angen tynnu hysbyseb i lawr o dan y Rheoliadau hyn, bydd hyn yn digwydd i foddhad rhesymol yr awdurdod cynllunio lleol.

[4] Nid oes unrhyw hysbyseb yn cael ei arddangos heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall sydd â diddordeb yn y safle sydd â hawl i roi caniatâd.

[5] Ni chaniateir i hysbyseb gael ei leoli neu ei arddangos fel ei fod yn cuddio, neu'n rhwystro dehongliad parod o unrhyw arwydd traffig ffordd, signal rheilffordd neu gymorth i fordwyo drwy ddŵr neu awyr, neu fel arall i wneud y defnydd o unrhyw briffordd, rheilffordd, dyfrffordd neu faes awyr (sifil neu filwrol) yn beryglus.

DRAFT

Cyngor Sir Ddinbych - Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

**Crynodeb o safbwynt polisi'r Cyngor mewn perthynas â:**

**Gosod arwyddion dros dro ar/wrth ymyl y Briffordd - Chwefror 2015**

1. Cwmpas / cefndir:

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at arwyddion nad ydynt yn barhaol sy'n cael eu gosod ar y briffordd neu wrth ei hymyl **(e.e. hysbysebion, byrddau A, arwyddion ar gyfer digwyddiadau ac ati)**.

2. Safbwynt polisi sylfaenol mewn perthynas ag arwyddion:

Ar 9 Medi 204 ystyriodd Pwyllgor Archwilio Cymunedau’r Cyngor y mater yn fanwl iawn. Ar ôl trafod y materion, gan gynnwys buddiannau ein busnesau lleol, roedd ar y Pwyllgor eisiau i'r Adran Briffyrdd barhau i ddilyn y canllawiau cyffredinol canlynol:

i) Tynnu POB arwydd / baner sy'n cael effaith andwyol ar ddiogelwch y ffyrdd oddi ar y briffordd ar unwaith (h.y. waeth beth yw'r cynnwys).

ii) Mae angen caniatâd ffurfiol i osod arwyddion cyfeirio dros dro ar gyfer digwyddiadau unigryw / safleoedd adeiladu / ystadau tai newydd ac ati. Bydd yr arwyddion hyn yn cael eu cymeradwyo neu eu hawdurdodi gan adran Gwaith Stryd y Cyngor.

iii) Dylid gosod byrddau A yn unol ag Adran 3 isod.

iv) Bydd unrhyw arwydd heb awdurdod gael ei drin yn unol ag adran 4 isod.

v) Ni chaniateir gosod arwyddion ymgyrch wleidyddol ar dir priffordd neu eiddo Cyngor, gan gynnwys dodrefn stryd.

3. Safbwynt polisi mewn perthynas â byrddau A:

Bu i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor hefyd drafod 'byrddau A', ac roedd ar yr Aelodau eisiau i'r Adran Briffyrdd barhau i gadw at y rheolau canlynol:

i) Caniateir gosod 'byrddau A' yn union y tu allan i'r busnes y mae'n ei hysbysebu. Ni fydd y Cyngor yn caniatáu gosod byrddau A mewn lleoliadau oddi wrth y busnes e.e. ar gorneli strydoedd neu gyffyrdd cyfagos ac ati.

ii) Mae'n rhaid caniatáu o leiaf 1.2 metr o ofod pasio. Bydd hynny'n ddigon o le ar gyfer cadair olwyn neu goets ddwbl. Mewn rhai lleoliadau efallai y bydd angen gofod pasio lletach nag 1.2 metr (e.e. canol trefi prysur).

iii) Ni chaniateir gosod byrddau A mawr. Dylent fod yn llai nag un metr o uchder.

4. Safbwynt polisi mewn perthynas ag arwyddion heb awdurdod:

Yn achos arwyddion heb awdurdod, mae ar y Pwyllgor Archwilio eisiau i'r Adran Briffyrdd barhau i gadw at yr egwyddorion canlynol:

i) Bydd yr holl hysbysebion MASNACHOL heb ganiatâd yn cael eu tynnu oddi ar y briffordd. Lle bo hynny'n ymarferol, bydd y Cyngor yn rhoi 24 awr o rybudd cyn tynnu'r arwyddion (gan roi cyfle i gwmnïau gael gwared ar eu harwyddion eu hunain).

ii) Gellir caniatáu i arwyddion digwyddiadau ANFASNACHOL aros ar y briffordd os ydynt wedi eu gosod mewn lle diogel. Fodd bynnag, bydd hyn yn ôl disgresiwn y swyddog strydwedd/priffyrdd priodol. D.S. Mae'r eithriad yma ar gyfer digwyddiadau cymunedol/elusennol penodol a digwyddiadau tebyg sydd â dyddiadau penodol YN UNIG.

iii) Os yw cwmnïau / sefydliadau / neu unigolion yn parhau i osod arwyddion heb awdurdod, ar ôl derbyn rhybudd ysgrifenedig i beidio â gwneud hynny, bydd y Cyngor naill ai'n a) cymryd camau gorfodi ar gyfer tipio anghyfreithlon, neu'n b) adennill costau cael gwared ar yr arwyddion heb awdurdod. Bydd methu talu costau cael gwared ar arwyddion yn arwain at achos llys.

5. <u>Sail resymegol y tu ôl i Safbwynt Polisi’r Cyngor:</u>

Mae rhesymau da pam bod safbwynt polisi’r Cyngor (a amlinellir uchod) wedi datblygu dros amser. Mae’r rhain yn cynnwys:

i) Mae arwyddion sydd wedi eu gosod ar ddodrefn stryd Cyngor Sir Ddinbych yn cael eu hystyried yn dechnegol fel tipio anghyfreithlon, ac felly maent yn anghyfreithlon. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyffredinol i dynnu deunyddiau anghyfreithlon a osodir yn y parth cyhoeddus.

ii) Mae'r rhan fwyaf o fusnesau a threfnwyr digwyddiadau yn talu am gynlluniau arwyddion priodol i gyfeirio pobl at eu digwyddiadau (arwyddion du a melyn). Felly, mae'n annheg caniatáu i rai busnesau osgoi cosb am ddiystyru’r gyfraith a/neu anwybyddu'r rheolau.

iii) Un o flaenoriaethau’r Cyngor yw cynnal strydlun glân a thaclus yn Sir Ddinbych. Cyn i’r Cyngor fabwysiadu ei safbwynt polisi cyfredol, roedd busnes yn cael gosod hysbysebion ar y briffordd heb gyfyngiad, ar yr amod nad yw diogelwch neb mewn perygl. Y canlyniad oedd; gormod o arwyddion heb awdurdod, gyda chlystyrau o arwyddion yn datblygu o gwmpas nifer o gyffyrdd a chorneli stryd. Roedd y sefyllfa yn amhosibl i'w rheoli, ac yn anniben iawn. Arweiniodd y diffyg gorfodaeth at gwmnïau cystadleuol yn copïo ac yn gosod arwyddion tebyg.

iv) Bu i Bwyllgor Archwilio’r Cyngor gydnabod fod y sefyllfa wedi mynd dros ben llestri, a gofynnodd i'r swyddogion adfer y sefyllfa. Roeddent yn cydnabod na allai swyddogion gael eu gadael mewn sefyllfa lle’r oedd y Cyngor yn caniatáu un busnes i osod arwydd ac yn gwrthod un arall. Felly, rhoddwyd cyfres o rolau sylfaen i’r swyddogion, y gellid eu cymhwyso'n deg ac yn gyson ar draws Sir Ddinbych, heb ofn na ffafriaeth.

S. Parker

Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

Chwefror 2015